# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6683

# 305(v6)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

Dechreuodd yr eitem am 14.33

Gofynnwyd y 6 cwestiwn.

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.55

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 15.19 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Llywydd.**

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Fesurau Arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dechreuodd yr eitem am 15.26

## 5 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Diwygio'r drefn ar gyfer Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat

Dechreuodd yr eitem am 16.04

## 6 Datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Diweddariad ar Dasglu'r Cymoedd - Gohiriwyd tan 8 Rhagfyr 2020

Gohiriwyd tan 8 Rhagfyr 2020

## 7 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.52

**NDM7484** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Tachwedd 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 17.09 cafodd y cyfarfod ei atal dros dro gan y Dirprwy Lywydd.**

## 8 Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 17.15

**NDM7482** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Tachwedd 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Am 17.22 ataliwyd y cyfarfod am funud.**

## 9 Dadl: Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg 2050 (2019-2020) ac Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg (2019-2020)

Dechreuodd yr eitem am 17.23

**NDM7485** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg 2050 (2019-20);

b) Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg (2019-20)

Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg 2050 (2019-20)

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg (2019-20)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020

Dechreuodd yr eitem am 17.56

**NDM7483** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Tachwedd 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

## 11 Cyfnod pleidleisio

Ni chafwyd cyfnod pleidleisio

Daeth y cyfarfod i ben am 18.00

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2020**